

ADRODDIAD CANGEN GWEITHREDIADAU'R MÔR A PHYSGODFEYDD

Ebrill 2018 – Medi 2018

AGOR / CAU / TRWYDDEDAU AC AWDURDODIADAU

Andy Bradick

- Bydd **Pysgodfa Gocos y Tair Afon**, sydd ar gau dros dro yn agor ar wely Llanybri (250 tunnell) ar benwythnosau o 21 Gorffennaf, ar wely Glanyfferi (200 tunnell) ar ddydd Mercher a dydd Iau o 15 Awst ac ar welyau Llanismel a Than-y-lan ar ddydd Mercher a dydd Iau o 19 Medi.
 - Llwyddwyd i agor y gwelyau drwy ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid a chydweithio'n effeithiol â chasglwyr, prosesyddion a thirfeddianwyr cyfagos gan gynnwys y Weinyddiaeth Amddiffyn.
 - Rhoddwyd 250 o drwyddedau
 - Mae tua 25-35 o gasglwyr yn cymryd cyfanswm o 10 tunnell y dydd nawr bod y gwelyau ar agor.
- Agorodd **pysgodfeydd cocos y Gogledd** yn Nhraeth Melynog (168 tunnell), Traeth Lafan (393 tunnell) a Thraeth Coch ar 1 Medi.
 - Rhoddwyd 96 o drwyddedau
- **Pysgodfa cregyn gleision Bae ac Aber Conwy**
 - Rhoddwyd 5 awdurdodiad ar 1 Medi
- Mae'r **bysgodfa hamdden cyllyll môr** yn Llanfairfechan a Phenmaenmawr yn dal ar gau tan 31 Rhagfyr 2018 er mwyn diogelu'r stoc ac fel y gellir cynnal asesiad o'r stoc.
- Caewyd y **bysgodfa Cregyn y Brenin** ar 30 Ebrill yn ôl yr arfer.

PRIF BYSGODFEYDD

1. Cocos

Barrie John / Greta Hughes

Arolygwyd pysgodfeydd cocos y Gogledd ym mis Mehefin ac agorodd y pysgodfeydd ar 1 Medi gan ganiatáu cyfansymiau iach ar gyfer dalfeydd yn Nhraeth Lafan (393 tunnell), Traeth Melynog (168 tunnell) a Thraeth Coch (25 tunnell). Yn Nhraeth Melynog y cafwyd y prif weithgarwch, lle mae chwe chasglwr yn casglu cocos o bryd i'w gilydd. Mae dau neu dri chasglwr wedi cael eu gweld yn Nhraeth Coch gyda rhywfaint o chwilota yn unig yn Nhraeth Lafan.

Am y tro cyntaf mewn chwe blynedd, mae nifer o'r gwelyau ym mhysgodfa gocos y Tair Afon wedi bod ar agor i gasglu masnachol. Hyd yma, mae Llanybri a Glanyfferi wedi agor ar un neu ddau ddiwrnod yr wythnos. Er bod 250 o drwyddedau wedi cael eu rhoi, 25-35 o gasglwyr fesul gwely a nodir gan y swyddogion. Mae potsian yn parhau ar welyau eraill yn yr ardal ac mae gweithgarwch gorfodi yn canolbwyntio ar hyn. Mae nifer o erlyniadau wedi cael eu

dechrau yn ystod yr haf mewn perthynas â chasglu cocos yn anghyfreithlon ac mae sawl ymchwiliad yn dal i fynd rhagddo.

2. Draenogiaid y môr

Barrie John

Gwnaeth y rheoliad sy'n ymwneud â chyfanswm y dalfeydd a ganiateir a chwotâu rwystro pysgotwyr rhag pysgota draenogiaid y môr Ewropeaidd yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth. Mae mesurau mwy llym bellach wedi cael eu cyflwyno ar gyfer gweddill y flwyddyn, gan gynnwys lleihau'r meintiau a ganiateir fesul metier gwahanol (gweler paragraff 18 isod). Mae cychod cymwys wedi cael eu hawdurdodi eto ar gyfer y tymor yn 2018.

Mae'r tywydd sefydlog estynedig dros yr haf wedi arwain at gynnydd mewn glaniadau draenogiaid y môr o gymharu â 2017. Mae'r diwydiant wedi nodi niferoedd sylweddol o ddraenogiaid ifanc ac aeddfed mewn dyfroedd arfordirol.

Bydd cyfyngiad hamdden o un pysgodyn y pen fesul diwrnod (naill ai wrth bysgota o gwch neu ar y lan) yn dod i rym ar 1 Hydref ac yn para tan ddiwedd y flwyddyn.

3. Cramenogion

Greta Hughes

Cyrhaeddodd pysgota cewyll uchafbwynt yn ystod y cyfnod. Er gwaethaf yr haf poeth hir, roedd nifer y cimychiaid a ddalwyd yn rhesymol a gwelwyd gwelliant yn ystod mis Medi. Hefyd, yn ôl yr arfer, bu cynnydd yn nifer y crancod bwydadwy a ddaliwyd yn ystod mis Medi.

4. Cregyn bylchog

Barrie John / Greta Hughes

Mae'r Bysgodfa wedi aros ar gau yn nyfroedd Cymru ers diwedd mis Ebrill. Cafwyd ambell adroddiad o offer sefydlog yn cael eu cymryd ymaith, a rhoddwyd y bai ar gasglwyr cregyn bylchog anghyfreithlon. Nid ydym wedi cael unrhyw dystiolaeth i ategu'r honiadau hyn. Mae rhywfaint o weithgarwch wedi bod ar y terfyn 12 milltir gan gychod o Dde Iwerddon yn ystod yr haf.

5. Cregyn moch

Barrie John

Mae'r pysgodfeydd cregyn moch ymhlith ein pysgodfeydd mwyaf cynhyrchiol o hyd. Mae lleihad amlwg wedi bod yn y niferoedd sy'n cael eu glanio i Borthladdoedd Cymru yn ystod misoedd yr haf. Nid yw hyn yn annisgwyl er bod yr adroddiadau a gafwyd o'r diwydiant yn dangos bod y lleihad yn fwy nag a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Nid oes dadansoddiad llawn o'r ffigurau glanio ar gael eto, ond mae cychod o Gymru wedi glanio dros 1500 o dunelli gyda gwerth o fwy na £2m.

ASEDAU AC ADNODDAU

6. Llongau Patrolio Pysgodfeydd

Mark Pole / Paul Rowley

Mae'r hyfforddiant i Swyddogion Gorfodi Morol ar fwrdd Llong Patrolio Pysgodfeydd Catrin wedi parhau yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r gwaith gweithredol o ddefnyddio asedau ar y môr, gan gynnwys Llong Patrolio Pysgodfeydd Catrin, wedi cael ei gynllunio ar y cyd â gwaith blaenoriaethu seiliedig ar risg yr ystafell weithrediadau yn Aberdaugleddau. Cynhaliwyd patrolau rhwng Conwy a Bae Caerfyrddin. Mae'r llong wedi cael ei defnyddio am gyfnodau o Farina Aberdaugleddau, Marina Aberystwyth a Marina Conwy. Mae criwiau'n parhau i gael eu ffurfio'n llwyddiannus gan gynnwys Swyddogion Gorfodi Morol o bob cwr o Gymru ac adrannau eraill ym mhob rhan o ESNR. Y tywydd, blaenoriaethau gorfodi ac argaeledd staff yn ystod gwyliau'r haf sydd wedi bod yn gyfrifol am gyfnodau pan na chaiff y llong ei defnyddio. Defnyddiwyd y cyfnodau hyn i ddarparu adnoddau staff ychwanegol i flaenoriaethau gorfodi eraill fel gorfodi mewn perthynas â choccos yn ôl cyfarwyddyd yr ystafell weithrediadau, gwaith cynnal a chadw, caffael cychod a llongau a hyrwyddo'r is-adran drwy dderbyn ac addysgu ymwelwyr ar fwrdd y llong o bob rhan o ESNR a Llywodraeth Cymru.

7. Caffael Cychod a Llongau

Craig Jones

Mae Llong Patrolio Pysgodfeydd Catrin (llong RIB ymateb brys sydd â chaban) wedi cael ei darparu. Mae wedi bod yn destun treialon môr helaeth ac mae bellach yn weithredol.

Mae'r gwaith mewn perthynas â'r ddwy long fwy yn mynd rhagddo ers peth amser bellach. Ymwelodd Ysgrifennydd y Cabinet, Lesley Griffiths, â Mainstay Marine ar 5 Medi a gwnaeth hefyd achub ar y cyfle i ddadorchuddio teclyn codi cychod amffibiaidd newydd Mainstay Marine. Caiff y teclyn codi ei ddefnyddio i godi ein cychod newydd i'r dŵr ar gyfer y treialon môr sydd i ddod. Disgwylir i'r ddau gwch fod yn weithredol yn ystod yr hydref.

RHEOLI A CHYDYMFFURFIO

8. Cydymffurfio â'r Rheoliad Rheoli

Barrie John

Mae'r Ystafell Weithrediadau yn parhau i fonitro symudiadau pob cwch a llong ym mharth Cymru drwy system fonitro cychod y glannau a thrwy gyflwyno data yn electronig drwy'r system gofnodi ac adrodd electronig. Mae sicrhau bod data'n cael eu cyflwyno o fewn yr amserlen ofynnol yn hollbwysig i sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliad. Wrth i ni symud tuag at Brexit, mae hyn yn debygol o fod yn fwy cyffredin gan ei bod yn debygol y bydd tystysgrifau dal pysgod i'w mewnfurio/allforio yn ofynnol (gweler eitem 12).

9. Glaniadau Cychod Tramor

Barrie John

Ar ôl cau'r bysgodfa yn y Môr Celtaidd yn ystod y gwanwyn, bu nifer sylweddol o laniadau gan gychod o Wlad Belg sy'n pysgota ym Môr Hafren a'r Môr Celtaidd yn bennaf. Ers mis Ebrill, rydym wedi gweld 115 o laniadau gan gychod o Wlad Belg yn Aberdaugleddau ac Abertawe. Bu saith glaniad arall gan gychod o Sbaen â baner y DU arnynt. Mae gwiriadau rheoli llawn wedi cael eu cynnal ar tua 20% o'r glaniadau hyn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y rheoliad rheoli. Mae hyn yn cynnwys craffu ar ddata'r system monitro cychod, y cofnodlyfr a datganiadau glanio a gwiriadau ffisegol ar adeg glanio gan gynnwys pwyso sampl.

10. Archwilio prynwyr pysgod

Barrie John

Rydym wedi parhau i weithio gyda'r diwydiant er mwyn sicrhau bod y broses newydd o ddefnyddio system electronig i gyflwyno nodiadau gwerthu yn cael ei chyflwyno'n ddidrafferth. Mae swyddogion yn parhau i ymweld â'r prif brynwyr pysgod/pysgod cregyn yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rhwymedigaeth statudol hon ac er mwyn cynnig arweiniad pan fydd angen. Gan fod nifer sylweddol o brynwyr yng Nghymru yn prynu pysgod/pysgod cregyn yn achlysurol ar raddfa fach, mae ein swyddogion wedi blaenoriaethu'r ymweliadau â'r rhain ymhlith blaenoriaethau gweithredol eraill.

11. Trwyddedu Morol

Phil Marshall

Mae'r haf wedi bod yn gyfnod prysur o ran gwaith trwyddedadwy morol wrth i ddeiliaid trwyddedau fanteisio i'r eithaf ar y tywydd braf. Mae Cyngorau Sir a CNC wedi gwneud llawer o welliannau i amddiffynfeydd môr a gwaith diogelu'r arfordir, wedi'u hategu gan gwmnïau gan gynnwys Network Rail. Bu'n gyfnod prysur o ran ynni adnewyddadwy, gydag Ynni Morol Cymru yn bwrw ymlaen â phrosiectau. Hefyd, yn y sector cynhyrchu pŵer, mae Gorsaf Ynni Niwclear Wylfa yn ennill momentwm, gyda goblygiadau cysylltiedig o ran trwyddedu morol. Mae'r penderfyniad i waredu deunydd a garthwyd o Orsaf Ynni Hinckley Point yn Nyfroedd Cymru ger Caerdydd wedi bod yn bwnc dadleuol. Mae protestwyr wedi galw am adolygiad barnwrol a gaiff ei wrando yn y Llys ddydd Llun 17 Medi. Gwnaeth cwmni carthu beri pryder ynghylch diffyg cydymffurfiaeth, ac ymdriniwyd â'r mater ar y cyd â'r Sefydliad Rheoli Morol am fod yr ardal garthu yn cwmpasu rhannau o ddyfroedd Cymru a Lloegr.

12. Mewnforio ac allforio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE

Tim Croucher

Cefndir

Fel aelod o'r UE, nid yw'n ofynnol i'r DU lunio na phrosesu tystysgrifau dal pysgod ar gyfer masnach rhwng gwledydd yr UE ar hyn o bryd. Pan fyddwn yn gadael yr UE, tybir y bydd y DU yn cael ei thrin fel trydedd wlad ac y bydd angen cyflwyno tystysgrifau dal pysgod ar gyfer cynhyrchion pysgod a gaiff eu hallforio i'r UE ac y bydd angen tystysgrifau dal pysgod i'w mewnforio ar gyfer cynhyrchion pysgod o'r UE. Bydd y gofyniad newydd hwn yn arwain at gynydd sylweddol yn nifer y tystysgrifau dal pysgod y bydd angen eu llunio a'u prosesu yn y DU.

Tystysgrifau dal pysgod i'w hallforio

Mae Defra / y Sefydliad Rheoli Morol, mewn cydweithrediad â'r gweinyddiaethau datganoledig, yn datblygu gwasanaeth digidol ar gyfer gweithredu tystysgrifau dal pysgod i'w hallforio ar gyfer cynhyrchion pysgod ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae angen i'r gwasanaeth gael ei ategu gan ddull gweithredu sy'n nodi sut y bydd gweinyddiaethau pysgodfeydd – gan gynnwys Llywodraeth Cymru – yn gwirio'r wybodaeth a gyflwynir ar y tystysgrifau hyn. Rhaid i'r polisi fynd i'r afael â'r tensiwn rhwng Llywodraethau:

- fel 'galluogwyr' masnach. Yn aml, pan fydd y DU yn masnachu â gwledydd Ewrop, bydd angen i bysgod ffres gael eu hallforio o fewn oriau i lanio;
- o ran gorfod monitro pysgota anghyfreithlon, pysgota na roddwyd gwybod amdano a pysgota heb ei reoleiddio.

Gall gwiriadau naill ai gael eu cynnal yn ystod y cais am dystysgrif dal pysgod i'w hallforio (drwy gymharu'r wybodaeth y mae'r allforiwr wedi'i rhoi â data a gyflwynwyd yn flaenorol o gofnodlyfrau electronig, datganiadau glanio neu nodiadau gwerthu), neu ôl-weithredol ar ôl i'r dystysgrif gael ei dilysu ac ar ôl i'r wybodaeth angenrheidiol gael ei chyflwyno i'r awdurdodau pysgodfeydd. Gall y gwiriadau hyn gynnwys edrych i weld pwy sy'n gwneud cais am allforio a'r llwyth ei hun (er enghraifft, a yw pwysau'r pysgod y mae am ei allforio'n drymach na'r pwysau a ddaliwyd yn wreiddiol). Efallai na fydd modd cadarnhau'r data hyn cyn i dystysgrif allforio gael ei dilysu bob amser, yn enwedig pan fydd angen allforio pysgod ffres yn gyflym iawn. Er ei bod yn ofynnol i gychod dros 12m gwblhau cofnodlyfrau electronig cyn glanio, nid oes cofnodion o'r fath ar gael ar hyn o bryd ar gyfer cychod llai (sef y rhan fwyaf o'r fflyd bysgota yng Nghymru). Gall y broblem hon gael ei gwaethygu gan gysylltedd gwael â'r rhyngwrwyd.

Mae'r polisi sy'n cael ei ddatblygu yn ceisio ystyried y materion uchod.

Tystysgrifau dal pysgod i'w mewnforio

Mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i'r DU gael tystysgrifau dal pysgod ar gyfer cynhyrchion pysgod a gaiff eu mewnforio o'r UE ar ôl Brexit. Yng Nghymru, byddai tystysgrifau dal pysgod i'w mewnforio yn cael eu gwirio gan:

- awdurdodau iechyd porthladdoedd – llwythi mewn cynwysyddion;
- Llywodraeth Cymru – glaniadau uniongyrchol (glaniadau gan gychod tramor). Glaniadau anuniongyrchol (cynhyrchion pysgodfeydd a gludir drwy borthladdoedd Cymru drwy drydydd gwledydd)

Byddai'r gwiriadau yn cynnwys gwirio dogfennau a gwirio manylion adnabod.

Ar hyn o bryd, mae swyddogion Is-adran y Môr a Physgodfeydd yn gwneud y canlynol:

- cydweithio â Defra i baratoi ar gyfer gwirio tystysgrifau dal pysgod i'w mewnforio gan gynnwys cysylltu ag awdurdodau iechyd porthladdoedd a pharatoi canllawiau a hyfforddiant i staff;
- gweithio i ragweld nifer a lleoliad glaniadau uniongyrchol yng Nghymru o'r UE yn y dyfodol, y staff y bydd eu hangen i gynnal gwiriadau, a'r costau.

Tystysgrifau iechyd allforio

Deallir gan swyddogion Defra y bydd yr UE, ar ôl Brexit, yn ei gwneud yn ofynnol bod tystysgrif iechyd allforio yn cael ei chyflwyno cyn allforio cynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid (gan gynnwys cynhyrchion pysgod) o'r DU i'r UE a bod y cynhyrchion hynny'n mynd drwy arolygfa ffin.

Mae Defra wedi amcangyfrif y gallai llawer mwy o dystysgrifau iechyd anifeiliaid gael eu cyflwyno ar ôl Brexit, a fydd yn arwain at oblygiadau mawr o ran adnoddau i awdurdodau lleol a gwasanaethau milfeddygol yn ogystal â'r allforwyr eu hunain. Mae Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol yn ystyried y mater hwn gyda chyfraniad gan Is-adran y Môr a Physgodfeydd.

Bydd y cyfyngiad ar allforio cynhyrchion pysgod i'r UE drwy arolygfeydd ffin yn golygu y gall fod yn rhaid i rai allforwyr yng Nghymru addasu eu llwybrau masnach. Felly, rydym yn trefnu gwasanaethau ymgynghori er mwyn rhoi cymorth ymarferol i allforwyr cynhyrchion pysgod yng Nghymru wrth iddynt gynllunio ar gyfer y newidiadau hyn.

System Casglu Data Pysgodfeydd

Cefndir

Bydd y system Casglu Data Pysgodfeydd yn cyflwyno dau ofyniad gorfodol i fflyd bysgota Cymru. Mae hwn yn brosiect â blaenoriaeth er mwyn defnyddio cyllid Rheoli a Gorfodi presennol o Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop a hefyd baratoi ar gyfer gofynion data posibl yn y dyfodol ar gyfer allforio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE fel y nodir uchod.

- Bydd yn ofynnol i bob cwch bysgota masnachol o dan 12m gael System Monitro Cychod weithredol wrth bysgota yn Nyfroedd Cymru.
- Bydd yn ofynnol i bob cwch bysgota masnachol o dan 10m roi manylion ei weithgarwch bysgota, gan gynnwys y pysgod a ddaliwyd, yr offer a ddefnyddiwyd a'r ymdrech, i Awdurdodau Cymru.

Cynnydd

Mae ymarfer caffael OJEU llawn ar waith i sicrhau'r dechnoleg sy'n ofynnol ar gyfer y prosiect. Hyd yma, rydym wedi gwneud y canlynol:

- Cyhoeddi Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw ar Gwerthwchi Gymru
- Cynnal dau Ddiwrnod Cyflenwyr y Diwydiant er mwyn rhoi gwybod i gyflenwyr posibl am y tendr yn y dyfodol.
- Cwblhau IPAF, gan gynnwys Sgrinio Preifatrwydd, Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd, Asesiad o'r Effaith ar Fusnes, Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a Sgrinio Diogelwch.
- Cynhaliwyd cyfarfod eithriadol o'r Awdurdod Cynllunio Atebion yn ymwneud yn benodol â'r prosiect ar 14 Medi 2018 i ystyried cynigion. Mae caniatâd wedi cael ei roi
- Mae'r ddogfen gwahoddiad i dendro'n cael ei drafftio ar hyn o bryd ac mae bron wedi'i chwblhau. Bwriedir ei chyhoeddi erbyn diwedd mis Hydref.

Mae gwaith deddfwriaethol i gyflwyno offerynnau statudol er mwyn rhoi'r cynigion ar waith hefyd yn mynd rhagddo. Hyd yma, rydym wedi gwneud y canlynol:

- Cael caniatâd gan Ysgrifennydd y Cabinet i fwrw ymlaen â'r cynigion.
- Mae gweithdai ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cael eu trefnu ar gyfer canol mis Hydref.

Mae ymgynghoriad ffurfiol ynghylch y cynigion yn cael ei ddrafftio i'w gyhoeddi ddiwedd mis Hydref.

GORFODI UNIONGYRCHOL

13. Ymchwiliadau ac Erlyniadau

Barrie John

Fel y soniwyd mewn man arall, mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud yn ystod 2018 mewn perthynas â symud ffeiliau achos ymchwiliadau ymlaen i'r cam erlyn drwy'r llysoedd ynadon.

Ar hyn o bryd, mae 14 o ymchwiliadau'n mynd rhagddynt. O'r rhain, mae disgwyl i lys ynadon Hwlfordd wrando tri ohonynt cyn diwedd mis Medi. Mae dau achos pellach wedi cael eu cyflwyno i'w hystyried, ac mae swyddogion gorfodi morol yn gweithio ar naw ohonynt ar hyn o bryd.

Mae gwaith yn parhau er mwyn newid i broses o gyflwyno cosbau gweinyddol penodedig, a'r gobaith yw y bydd ymgynghoriad ar hyn yn cael ei lansio yn y dyfodol agos.

RHEOLI FFLYD

14. Trwyddedu cychod

Barrie John

Mae trwyddedu cychod yn niwydiant pysgota Cymru yn dal i fod yn flaenoriaeth allweddol. O dan strwythur presennol fflyd Cymru, mae 27 o gychod dros 10m a 375 o gychod dan na 10m wedi'u trwyddedu gennym. Rydym yn dal i weld oedi wrth gofrestru, sydd yn ei dro yn effeithio ar ein gallu i drwyddedu cychod mewn modd amserol. Rydym yn parhau i gefnogi ein diwydiant drwy sicrhau bod y rhai yr effeithiwyd arnynt yn gallu gweithio tra byddwn yn mynd i'r afael â'r oedi hwn.

Bu 150 o drafodion yn ymwneud â thrwyddedau yn ystod y chwarter diwethaf. Roedd 20 ohonynt yn ymwneud â dadgyfuno trwyddedau.

17. Rheoli cwotâu

Mike Jones

Ganol mis Medi, o ganlyniad i'r dyraniadau a'r cwota ychwanegol a sicrhawyd drwy gyfnewidiadau amrywiol, mae cwota digonol ar gael bellach er mwyn sicrhau y gall pob cwch o dan 10m yng Nghymru barhau i bysgota tan ddiwedd y flwyddyn. Mae'r unig nifer nodedig i'w gweld mewn perthynas â morgathod lle rydym wedi cymryd tua 50% o'r cwota sydd gennym. Yn gyffredinol, mae cwota misol cychod dan 10m yng Nghymru ar gyfer nifer o rywogaethau allweddol yn parhau i fod yr un fath â chychod cyfatebol yn Lloegr, os nad mwy.

18. Draenogiaid y môr

Mike Jones

Cafodd cynnig gwreiddiol Cyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr a'r Comisiwn Ewropeaidd i wahardd pob dalfa o ddraenogiaid y môr ei wrthod yn ystod cyfarfod y Cyngor ym mis Rhagfyr, ac yn dilyn trafodaethau anodd iawn, cytunwyd ar derfynau dal blynyddol ar gyfer pysgota bachyn a lein a lwfansau sgil-ddalffa na ellir ei hosgoi ar gyfer rhwydi drysu ar gyfer 2018. Er y bydd y terfynau hyn yn is na rhai'r llynedd, cytunwyd arnynt er gwaethaf gwrthwynebiad cryf iawn a'r cyngor gwyddonol bod y stoc o ddraenogiaid y môr yn nyfroedd ehangach Ewrop yn dal i fod mewn perygl mawr iawn.

Mae'r cyfyngiadau canlynol ar ddalfeydd o ddraenogiaid y môr a ddaliwyd yn anochel gan gyhochod masnachol yn gymwys yn 2018:

- Defnyddio treillrwydi dyfnforol – uchafswm o 100kg y mis ac 1% o bwysau'r holl ddalfeydd o organebau morol ar y cwch neu'r llong ar unrhyw ddiwrnod unigol.
- Defnyddio rhwydi sân – uchafswm o 180kg y mis ac 1% o bwysau'r holl ddalfeydd o organebau morol ar y cwch neu'r llong ar unrhyw ddiwrnod unigol.
- Defnyddio bachau a leiniau – uchafswm o bum tunnell y cwch neu long bob blwyddyn.
- Defnyddio rhwydi drysu – uchafswm o 1,200kg y cwch neu long bob blwyddyn.

Ym mhob pysgodfa hamdden, gan gynnwys pysgota o'r lan, dim ond pysgota dal a rhyddhau ar gyfer y flwyddyn gyfan a ganiatawyd i ddechrau. Fodd bynnag, yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Rhagfyr, ymrwymodd y Comisiwn Ewropeaidd yn benodol i gwblhau adolygiad o'r asesiad stoc draenogiaid y môr erbyn diwedd mis Mawrth eleni. O ganlyniad i'r adolygiad, bydd y Comisiwn yn agor y pysgodfa â chyfyngiad o un pysgodyn y dydd i bysgotwyr hamdden o 1 Hydref tan ddiwedd y flwyddyn.

19. Gwrachod y môr

Phil Marshall

Nid yw Marine Harvest, sydd wedi prynu'r fferm bysgod ar Ynys Môn, wedi cymryd unrhyw wrachod y môr o Ddyfroedd Cymru eleni, ac mae'n annhebygol iawn y byddant yn gwneud hynny yn ystod y chwarter sy'n weddill. Mae Marine Harvest yn gobeithio ffermio gwrachod y môr erbyn 2020. Bwriedir cynnal cyfarfod â Llywodraeth Cymru cyn diwedd mis Hydref.

20. Erlyniadau

Barrie John

Ers yr adroddiad diwethaf, mae cynnydd pellach wedi cael ei wneud mewn perthynas â symud ffeiliau ymchwiliadau i'r cam erlyn. Mae 11 yn rhagor o erlyniadau wedi cael eu cynnal, a dangosir crynodeb o'r canlyniadau isod. Dechreuwyd pob un o'r achosion hyn mewn perthynas â deddfwriaeth ddomestig sy'n effeithio ar ddwy brif bysgodfa.

Enw'r Cwch neu'r Diffynnydd	Trosedd a Gyflawnwyd	Cyfanswm ar gyfer yr achos
David Thomas	Casglu cocos o wely caeedig	£2,029
Olivia Jean	Pysgota cregyn bylchog yn anghyfreithlon	£11,046
Annette	Pysgota cregyn bylchog yn anghyfreithlon	£14,080
Stuart Preece	Casglu cocos o wely caeedig	£2,180
Stephen Melbourne	Casglu cocos o wely caeedig	£4,190
A Griffiths, L Williams, D Whitehead, C Griffiths	Cymryd cocos sy'n rhy fach.	£6,272
C White	Casglu cocos o wely caeedig	£750
M S Morgan	Casglu cocos o wely caeedig	£3,151.8
Sea Lady	Pysgota cregyn bylchog yn anghyfreithlon (mwy na 221 KW)	£40,306
M Poulter	Gwaith anghyfreithlon ar y blaendraeth o dan y cymedr penllanw gorllanw (MACCA)	£3,318
Adrian Price	Casglu cocos o wely caeedig	£995

21. Tudalennau Gwe

Andy Bradick

- Hysbysiad Cyhoeddus, ffurflen gais a ffurflenni dal pysgod Pysgodfa'r Tair Afon wedi'u cyhoeddi a'u diweddar pan gafodd pob gwely ei agor.
- Hysbysiad agor a ffurflenni dal pysgod Cocos Gogledd-orllewin Lloegr wedi'u cyhoeddi.
- Hysbysiad cau pysgodfa cregyn gleision Conwy wedi'i gyhoeddi.
- Mae'r ffurflenni cais a'r dudalen ffurflenni dal pysgod ar gyfer Cregyn y Brenin wedi cael eu diweddarau ar gyfer tymor 2018/19.

Atodiad 1. Dangosyddion Perfformiad Gweithrediadau Pysgodfeydd o fis Mai 2018 hyd at fis Medi 2018.

Maes Gwaith	Gweithgaredd	Mai 2018	Mehefin 2018	Gorffennaf 2018	Awst 2018	Medi 2018
Gorfodi deddfwriaeth pysgodfeydd morol	Patrolau ar y môr	6	13	4	4	3
	Archwiliadau ar y môr	4	10	22	5	3
	Archwiliadau mewn porthladdoedd	85	30	46	28	40
	Porthladdoedd yr ymwelwyd â nhw	97	59	167	68	81
	Archwiliadau o gofrestriadau prynwyr a gwerthwyr	13	3	6	2	7
Ymchwilio i droseddau yn ymwneud â physgodfeydd môr	Troseddau a ganfuwyd	4	3	1	2	1
	Ymchwiliadau newydd	3	3	0	2	0
	Ymchwiliadau sy'n mynd rhagddynt	15	18	16	14	11
	Rhybuddion ysgrifenedig swyddogol	1	1	0	0	0
	Erlyniadau llwyddiannus	4	1	0	2	3
Gorfodi'r system trwyddedu morol	Trwyddedau morol gweithredol	93	114	113	111	107
	Nifer y Trwyddedau Morol a Archwiliwyd	3	2	3	1	1
	Troseddau	0	1	0	0	0
	Ymchwiliadau sy'n mynd rhagddynt	1	1	1	1	0